

# Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid yng Nganolfan Gymued Penrhos  
am 7.00pm Nos Iau 28<sup>ain</sup> o Fawrth 2024

## Agenda

1. Presennol
2. Ymddiheuriadau
3. Cod Ymddygiad
4. Cofnodion Cyfarfod diwethaf 28 -02-2024
5. Materion yn codi o'r cofnodion
6. Adroddiad Ariannol
  - a. Mantolen Ariannol
7. Cofrestr Risg/Polisia
  - a. Camau nesaf
8. Cadarnhau Taliadau a taliadau angen sylw

Cyflog yn cynnwys ol-daliad	£ 1151.84
H M R C yn cynnwys ol-daliad	£ 287.00
Cyngor Gwynedd Torri gwair ychwanegol	£ 1514.98
Traelia Cynghorwyr x 9 £156	£ 1404.00
9. Ceisiadau Nawdd

Only Boys Aloud Cylch Ti a Fi
Gwariant 23-24
Eglwys St Cedol at dori'r fynwent
10. Prosiectau
  - i. Ysgol Y Faenol Diweddariad
  - ii. Capel y Fynwent Diweddariad
11. I'w trafod hefyd

Sefyllfa gyfreithiol - Gamlins
--------------------------------

# Cyngor Cymuned Pentir

## Cofnodion cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid yng Nganolfan Gymued Penrhos am 7.00pm Nos Fercher 28<sup>ain</sup> o Chwefror 2024

1. Presennol Cyng L A James (Cadeirydd) Cyng J Pierce Cyng D Jones-Morris Cyng B. Jones Cyng I Ellis a'r Clerc
2. Ymddiheuriadau Cyng J Lewis,
3. Cod Ymddygiad  
Cyng L A James yn datgan ei bod yn aelod/ymddiriedolwr ar Bwyllgor Rheoli Canolfan Penrhos
4. Cofnodion Cyfarfod diwethaf 31 -01-2024  
Derbynwyd fel cofnodion cywir ar gynnig Cyng D Jones-Morris gafodd ei eilio gan y Cyng J Pierca
5. Materion yn codi o'r cofnodion  
Cysylltiadau trydannol heb eu gosod oherwydd diffyg gallu prynu y goleuadau cyn y Nadolig  
Symud ymlaen i osod a priso gosod 6 arall ar gyfer 24 - 25
6. Adroddiad Ariannol
  - a. Mantolen Ariannol 'Roedd yr adroddiad ariannol wedi ei rhanu yn dangos £11,671-99 yn y cyfrif cyfredol a £40,784-12 yn y cyfrif cadw
7. Cofrestr Risg/Polisia
  - a. Diweddariad o'r Cyngor Llawn Bu trafodaeth yn y Cyngor Llawn am fformat y gyfrestr a felly yn hytrach na'i anfon i'w chyfieithu cytunwyd y byddai'r Is-Grwp yn trafod os oedd angen newid y fformat ai peidio
  - b. Camau nesaf  
Gweler uchod a hefyd mae'r grwp am edrych ar y risgiau oedd wedi eu ysgrifennu mewn coch ar y gofrestr
8. Cadarnhawyd y Taliadau canlynol

Cyflog	£ 651.84	H M R C	£ 163.00	Cymen	Cyfieithu Ionawr	£ 196.66
Gamlins			£1,936.44			
9. Ceisiadau Nawdd

Clwb Peldroed ieuectid Penrhosgarnedd Argymell cyfraniad o £300 tuag at eu costau i adnewyddu eu blychau cymorth cyntaf

Dawns i Bawb Tra bod y Cyngor Llawn wedi cymeradwyo cyfrannu £150 oherwydd cyswllt hefo Ysgolion Lleol bu i'r Clerc geisio cysylltu a'r person anfonodd y cais er mwyn gweld yn union i ble dylsa ni anfon yr arian/siec ond heb dderbyn ymateb Clerc i barhau i geisio cael cyswllt

Gwariant 23-24

Eglwys St Cedol at dori'r fynwent Bu cryn drafod ar hyn oherwydd nad oes amcanbris a son mae gwirfoddolwyr sy'n bwriadu cario y gwaith allan – Ni ellir cyfrannu onibai ein bod yn hyderus fod y gwirfoddolwyr wedi derbyn hyfforddiant addas i wneud y gwaith
10. Prosiectau
  - a) Ysgol Y Faenol Dim diweddariad pellach ond ymgais o gyswllt cyfreithiol rhwng Gamlins a Chyngor Gwynedd wedi methu oherwydd salwch a gwylliau blynyddol

- b. Capel y Fynwent Y cynlluniau wedi eui rhannu i'r ddau gontractwr oedd wedi rhoi amcanbris fisoedd yn ol

\_11 I'w trafod hefyd

Cysgodfan Bws Bryn Ogwen Y mater gwrthwynebu bellach yn nwylo Trafnidiaeth Cymru sydd wedi datgan fod angen y gymuned yn gryfach na'r gwrthwynebydd

Costau torri gwair 2024-25

Contarctwr torri gwair wedi gwneud cais i godi ei brisiau yn unol a chwyddiant Argymell i'r Cyngor Llawn ei bod yn derbyn y prisiau newydd o gofio hefyd fod canmol am safon ei waith yn y fynwent ag ar y llwybrau

Daeth y Cyfarfod i ben am 9.10